

Cwynion am Gynadleddau Amddiffyn Plant Gwybodaeth i Rieni/Gofalwyr a Phobl Ifanc

Mae'r daflen hon yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i chi:

- Pwy all gwyno
- Yr hyn y gallwch gwyno amdano
- Sut i gwyno
- Beth i'w ddisgwyl os ydych yn cwyno

Pwy all wneud cwyn?

- Mae gan unrhyw riant, gofalwr neu unigolyn sydd â chyfrifoldeb riant* yr hawl i gwyno
- Mae gan unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc sydd wedi mynychu cynhadledd achos amddiffyn plant ac sy'n gallu deall beth sy'n digwydd yr hawl i gwyno
- Gall oedolion eraill sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr achos, er enghraifft, neiniau a theidiau, gwyno ond dim ond os bydd cadeirydd y gynhadledd yn credu ei fod er lles gorau'r plentyn, ac yn cytuno i dderbyn y gŵyn

* Mae Cyfrifoldeb Rhiant yn golygu bod gan yr holl famau a'r rhan fwyaf o dadau hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol fel rhiant - gelwir yn 'gyfrifoldeb rhiant'.

Os oes gennych gyfrifoldeb rhiant, eich swyddogaethau pwysicaf yw:

- rhoi cartref i'r plentyn
- diogelu a chynnal y plentyn

Os oes gennych gyfrifoldeb rhiant am blentyn nad ydych yn byw gydag o, nid oes gennych o reidrwydd yr hawl i gysylltu ag o - ond mae angen i'r rhiant arall roi gwybod i chi am ei les a'i gynnydd.

Yr hyn y gallwch gwyno amdano

Gallwch gwyno am 3 rheswm, a **dim ond** y rhesymau hyn:

- Nid ydych o'r farn y dilynwyd y broses gywir
- Nid ydych yn cytuno â'r penderfyniad i roi plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, neu ei dynnu oddi ar y gofrestr
- Nid ydych yn cytuno â'r rheswm y cafodd y plentyn ei gofrestru. Gelwir hyn y 'categori cofrestru'



Cwynion eraill

Efallai eich bod yn anhapus am rywbeth arall sydd wedi digwydd neu heb ddigwydd. Os felly, bydd Adran Gwynion yr Awdurdod Lleol yn gallu helpu.

Sut mae gwneud Cwyn?

- Cysylltwch â Chadeirydd y Gynhadledd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd. Mae Cadeirydd y Gynhadledd yn unigolyn annibynnol a'i waith yw sicrhau bod cynadleddau amddiffyn plant yn cael eu cynnal mewn modd teg ac agored.
- Gallwch gwyno yn hwyrach na 10 diwrnod ar ôl y gynhadledd. Gall cadeirydd y gynhadledd benderfynu peidio â derbyn cwyn yn hwyr os bydd o'r farn nad yw er lles pennaf y plentyn

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi wneud cwyn?

- Bydd Cadeirydd y Gynhadledd yn trefnu i gyfarfod â chi i drafod eich cwyn. Bydd yn ceisio datrys pethau.
- Os na fydd Cadeirydd y Gynhadledd wedi gallu helpu a'ch bod yn dal yn anfodlon, bydd yn eich helpu i wneud cwyn ysgrifenedig.
- Bydd angen i chi lofnodi eich cwyn a sicrhau ei fod y cyrraedd Cadeirydd y Gynhadledd cyn gynted â phosibl.
- Bydd Panel Annibynnol yn cyfarfod i edrych ar eich cwyn. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal o fewn 22 diwrnod ar ôl derbyn eich llythyr.

Y Panel Cwynion Annibynnol

- Mae'r Panel Annibynnol yn cynnwys pobl o wahanol asiantaethau, er enghraifft, yr Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant. Ni fydd unrhyw un wedi bod yn gysylltiedig â'ch achos.
- Cewch eich gwahodd i gyfarfod y panel cwyno, ond nid oes rhaid i chi fynychu os nad ydych yn dymuno gwneud hynny.
- **Os byddwch yn dod** i gyfarfod y panel cwynion, gallwch:
 - Roi tystiolaeth i gefnogi eich cwyn. Gallwch wneud hyn yn ysgrifenedig, neu gallwch ddweud wrth y panel pam eich bod yn anhapus
 - Gallwch ddod â rhywun gyda chi i'ch cefnogi, er enghraifft ffrind neu aelod o'r teulu



- Gallwch ddod â chymorth cyfreithiol gyda chi
- Gallwch ddod â thystion i gefnogi eich cwyn
- **Os na fyddwch yn dod** i gyfarfod y panel cwynion:
 - Gallwch barhau i anfon tystiolaeth i gefnogi eich cwyn
 - Gallwch anfon cynrychiolydd cyfreithiol

Rhowch wybod i Gadeirydd y Panel o leiaf 5 diwrnod cyn y cyfarfod os ydych am i unrhyw un arall ddod draw, fel y gallwn sicrhau bod yr ystafell yn addas, ac er mwyn i ni gynllunio'r cyfarfod yn iawn.

- Bydd y panel yn ystyried:
 - P'un a ddilynodd proses y gynhadledd y weithdrefn gywir. Mae'r weithdrefn wedi'i nodi mewn llyfr o'r enw 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan'
 - P'un a yw'r penderfyniad sy'n sail i'r gwyn yn dilyn yn rhesymol o arsylwad cywir o'r gweithdrefnau
 - P'un a yw'r penderfyniad sy'n sail i'r gwyn yn dilyn yn rhesymol o'r wybodaeth sydd ar gael i'r gynhadledd wreiddiol

Beth sy'n digwydd ar ôl y panel cwynion annibynnol?

- Bydd y panel yn rhoi gwybod i chi a ydynt yn meddwl bod gennych reswm i gwyno neu beidio. Os byddant o'r farn bod gennych reswm i gwyno, byddant yn 'cynnal' eich cwyn, ac yn rhoi rheswm pam i chi.
- Os bydd y panel o'r farn nad oes gennych reswm i gwyno, ni fyddant yn cynnal eich cwyn, ac yn rhoi rheswm pam i chi.
- Byddwch yn clywed gan y panel o fewn wythnos i gyfarfod y panel.

Beth NA ALL y panel ei wneud

NI ALL y panel dynnu enw plentyn oddi ar y gofrestr amddiffyn plant; dim ond mewn Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant y gellir gwneud hyn.

Beth Y GALL y panel ei wneud

Os caiff eich cwyn ei chadarnhau, bydd y panel yn gofyn am gynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant newydd er mwyn ailystyried y penderfyniad a'r categori cofrestru. Dylai'r Gynhadledd Amddiffyn Plant newydd hon ddigwydd o fewn 15 diwrnod gwaith.

Os nad ydych yn fodlon o hyd

Yn achos Apeliadau Cynadleddau Amddiffyn Plant Gogledd Cymru, mae penderfyniad y panel apêl yn derfynol ac ni fydd unrhyw ddulliau pellach o apelio.